# CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG
# CYNNIG ARBED - ASESIAD EFFAITH AR Y GYLLIDEB

| | |
|---|---|
| CYFADRAN: | Pob cyfadran |

| | |
|---|---|
| MAES GWASANAETH: | Pob maes gwasanaeth |

## 1. GWYBODAETH GYFFREDINOL

| | |
|---|---|
| ENW'R CYNNIG ARBED: | Gostyngiad o 20% ar draws yr holl gyllidebau hyfforddi staff |

| | |
|---|---|
| MAES CYLLIDEB: | Gwasanaethau Corfforaethol, Economi a'r Amgylchedd, Addysg a Dysgu Gydol Oes |

| | |
|---|---|
| CYFANSWM Y GYLLIDEB AR GYFER Y MAES HWN: | £ Nifer o gyllidebau llai ar draws y Cyngor o fewn trefniadau timau neu wasanaethau |

| | |
|---|---|
| CYFANSWM YR ARBEDION: | £39,878 (Gwasnaethau Corfforaethol)<br>£41,847 (Economi a'r Amgylchedd)<br>£1,600 (Addysg a Dysgu Gydol Oes) |

| DARPARWCH DDISGRIFIAD BYR O SUT MAE MODD CYFLAWNI'R ARBEDIAD: |
|---|
| Bydd yr arbediad yn cael ei gyflawni drwy ostyngiad cyffredinol o 20% ar draws yr holl gyllidebau hyfforddi.<br><br>Cynigir i dorri 20% o gyllideb gorfforaethol ar gyfer hyfforddiant Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg hefyd. Gan fod gan hyn y potensial i effeithio ar ddyletswyddau statudol bydd Asesiad Effaith Integredig ar wahân yn cael ei gwblhau ar gyfer yr elfen hon o'r arbedion arfaethedig. |

## 2. DADANSODDIAD O'R EFFAITH AR Y CYHOEDD

| DISGRIFIWCH EICH CYNLLUNIAU I LINIARU'R **EFFAITH AR Y CYHOEDD (lle bo modd):**<br><br>Ystyriwch y 5 ffordd o weithio, gan feddwl am y goblygiadau *hirdymor* i genedlaethau'r dyfodol a *gwasanaethau ataliol* a chydnabod y bydd arbedion nawr yn sicrhau gwasanaethau'r dyfodol. **DS* MAE'N BWYSIG CYDNABOD YR HER ARIANNOL SYLWEDDOL SY'N WYNEBU'R CYNGOR**. |
|---|
| **Canllawiau hirdymor:** Ystyriwch bwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor, gan gynnwys cynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn y dyfodol.<br><br>Bydd y rhan fwyaf o'r cyllidebau hyfforddiant lefel gwasanaeth yn dal i fod ar gael i'w defnyddio ar gyfer hyfforddiant staff (80%). Mae'r broses 'Amser i fi' ac 'Amser i fi a Mwy' yn drafodaeth weithredol reolaidd rhwng staff a'u rheolwyr llinell a ddylai gynnwys datblygiad staff a chyfrifoldeb ar y cyd i arfogi staff â'r sgiliau angenrheidiol i gwblhau eu swydd a datblygu yn y tymor hwy. Wrth |

Draft

| |
|---|
| wneud ceisiadau am hyfforddiant efallai y bydd angen blaenoriaethu anghenion yn wahanol ar draws timau, ac ymgais i ddod o hyd i'r fersiwn fwyaf cost-effeithiol o hyfforddiant i sicrhau y gellir defnyddio'r gyllideb sy'n weddill ar draws holl aelodau'r tîm mor effeithiol â phosibl.<br><br>**Canllawiau atal:** Ystyriwch a yw'r arbedion arfaethedig yn effeithio ar faes ataliol sy'n lleihau beichiau yn y dyfodol ac yn cynorthwyo lles a sut mae modd lliniaru hyn os bydd y gwasanaeth yn lleihau, neu'n dod i ben.<br><br>Ddim yn berthnasol |

**ASESIADAU STATUDOL**

| | | |
|---|---|---|
| A OES GAN Y CYNNIG Y POTENSIAL I EFFEITHIO'N FWY AR BOBL Â **NODWEDDION GWARCHODEDIG**? (Ticiwch) (Nodyn atgoffa- OEDRAN, ANABLEDD, AILBENNU RHYWEDD, PRIODAS neu BARTNERIAETH SIFIL, BEICHIOGRWYDD A MAMOLAETH, HIL, CREFYDD neu GRED, RHYW, CYFEIRIADEDD RHYWIOL) | **Oes -** toriad yn y gyllideb hyfforddiant corfforaethol | Mae gan yr holl staff fynediad cyfartal i hyfforddiant sy'n gymesur â'u rôl ac anghenion y gwasanaeth y maent yn gweithio ynddo. |
| A YW'R CYNNIG YN EFFEITHIO AR BOBL SY'N WYNEBU **ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL**? (Ticiwch) (Nodyn atgoffa- INCWM ISEL/TLODI INCWM, CYFOETH ISEL NEU DDIM CYFOETH, AMDDIFADEDD MATEROL, AMDDIFADEDD ARDAL, CEFNDIR ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL, a'u HEFFAITH GRONNOL) | | **Nac ydy** |
| A YW'R CYNLLUN YN EFFEITHIO AR Y **GYMRAEG**? (Ticiwch) (Nodyn atgoffa- CYFLEOEDD I DDEFNYDDIO'R IAITH, HYRWYDDO'R IAITH a/neu DRIN Y GYMRAEG YN LLAI FFAFRIOL NA'R SAESNEG) | **Ydy -** toriad yn y gyllideb hyfforddiant corfforaethol | |

| |
|---|
| **DS *** Os wnaethoch chi ateb 'oes' neu 'ydy' i unrhyw un neu ragor o'r uchod, cwblhewch Asesiad Effaith Integredig. Am ragor o gyngor ac arweiniad, gweler y Porthol Polisi. Rhaid cyflwyno'r Asesiad Effaith ar y Gyllideb hwn, neu Asesiad Effaith Integredig, os yw'n berthnasol, i'w gynnwys fel hyperddolenni i'r holl adroddiadau penderfyniad sy'n ymwneud â'r arbedion arfaethedig. **NID oes angen Asesiadau Effaith Integredig ar gyfer cynigion heb effaith gyhoeddus**. |

| |
|---|
| NODWCH UNRHYW YMGYNGHORIAD A GAFODD EI GYNNAL WRTH YSTYRIED Y CYNNIG HWN. Crynhowch unrhyw adborth a ddaeth i law.<br><br>Ystyriwch y 5 ffordd o weithio, yn enwedig, *cynnwys*. |
| **Cynnwys:** Ystyriwch a ydych chi wedi cynnwys pobl sydd â diddordeb yn y maes gwasanaeth, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a darpar ddefnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Bydd y cynnig hwn yn rhan o'r ymgynghoriad ehangach ar y gyllideb ar gyfer 24/25. Grŵp rhanddeiliaid i'w dargedu fel rhan o'r ymgysylltu hwn yw'r staff a gyflogir gan y Cyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| A OES ANGEN RHAGOR O YMGYNGHORI CYN BOD MODD GWEITHREDU'R CYNNIG HWN? | **Oes** | |
| **DS*** Gofynnwch am arweiniad gan y Tîm Mewnwelediadau a Gwybodaeth, sy'n gallu rhoi cyngor ynghylch a oes angen ymgynghoriad ffurfiol a chadw at Egwyddorion Gunning. | | |

| GAN YSTYRIED YR UCHOD, DIFFINIADAU'R SGÔR EFFAITH, A'R CYNLLUNIAU I LINIARU'R EFFAITH, NODWCH Y **SGÔR EFFAITH AR Y CYHOEDD** SY'N BERTHNASOL I'R CYNNIG ARBED HWN (ticiwch): | | | | |
|---|---|---|---|---|
| DIM EFFAITH | EFFAITH FECHAN | EFFAITH GYMEDROL | EFFAITH SYLWEDDOL | EFFAITH DDIFRIFOL |
| X | | | | |

## 3. DADANSODDIAD O'R EFFAITH SEFYDLIADOL

| DISGRIFIWCH EICH CYNLLUNIAU I LINIARU'R **EFFAITH AR Y SEFYDLIAD (lle bo modd)** :<br><br>Er enghraifft, gostyngiad graddol mewn gwasanaeth, modelau cyflawni amgen, rheoli galw, defnydd mwy effeithlon o asedau, cynhyrchu incwm, sgiliau trosglwyddadwy staff, masnacheiddio'r gwasanaeth ac ati.<br><br>Yn ogystal, ystyriwch y 5 ffordd o weithio, yn benodol, *cydweithio* â meysydd gwasanaeth neu bartneriaid eraill. |
|---|
| **Canllawiau cydweithio:** Cydweithio ag unrhyw wasanaeth neu bartner arall i gyflawni amcanion lle gallan nhw ddarparu gwasanaeth sy'n cyfateb yn fras.<br><br>Bydd y rhan fwyaf o'r cyllidebau hyfforddiant lefel gwasanaeth yn dal i fod ar gael i'w defnyddio ar gyfer hyfforddiant staff (80%). Mae'r broses 'Amser i fi' ac 'Amser I fi a Mwy' yn drafodaeth weithredol reolaidd rhwng staff a'u rheolwyr llinell a ddylai gynnwys datblygiad staff a chyfrifoldeb ar y cyd i arfogi staff â'r sgiliau angenrheidiol i gwblhau eu swydd a datblygu yn y tymor hwy. Wrth wneud ceisiadau am hyfforddiant efallai y bydd angen blaenoriaethu anghenion yn wahanol ar draws timau, ac ymgais i ddod o hyd i'r fersiwn fwyaf cost-effeithiol o hyfforddiant i sicrhau y gellir defnyddio'r gyllideb sy'n weddill ar draws holl aelodau'r tîm mor effeithiol â phosibl. |

| DISGRIFIWCH EICH CYNLLUNIAU I LINIARU'R **EFFAITH AR AELODAU O STAFF**: |
|---|
| Bydd angen i reolwyr llinell roi ystyriaeth fwy gofalus i'r defnydd o'r cyllidebau hyfforddi sydd ar gael er mwyn sicrhau defnydd teg ac effeithiol o gyllidebau hyfforddi wrth symud ymlaen. |

| | |
|---|---|
| NIFER Y STAFF **CYFWERTH AG AMSER LLAWN** YN RHAN O'R PROSIECT: | Pob gweithiwr |

| | |
|---|---|
| NIFER Y **SWYDDI** SY'N RHAN O'R PROSIECT:<br>(Nodyn atgoffa - SICRHAU EICH BOD CHI WEDI CEISIO CYNGOR GWASANAETHAU POBL YNGHYLCH SUT I REOLI UNRHYW NEWIDIADAU O RAN STAFFIO) | |

| NODWCH SUT Y BYDD HYN YN CAEL EI REOLI: | FAINT O SWYDDI? |
|---|---|

Draft

| | |
|---|---|
| SWYDD(I) SYDD EISOES YN WAG: | |
| DISWYDDIADAU GWIRFODDOL: | |
| YMDDEOLIADAU: | |
| ADLEOLIADAU: | |
| DISWYDDIADAU: | |

| | |
|---|---|
| RHOWCH FANYLION YNGHYLCH PRYD Y BYDD HYN YN CAEL EI WEITHREDU: | |

| | | |
|---|---|---|
| A FYDD YR ARBEDION ARFAETHEDIG YN CAEL EFFAITH AR GYFADRAN, MAES GWASANAETH NEU DÎM ARALL O FEWN Y CYNGOR? (ticiwch) | | **Na fyddan -** mae hwn yn gynnig cyffredinol |
| A FYDD YR ARBEDION ARFAETHEDIG YN CAEL EFFAITH AR BARTNER ARALL YN Y SECTOR CYHOEDDUS NEU'R SECTOR GWIRFODDOL? (ticiwch) | | **Na fyddan** |

Os bydd yn cael effaith ar unrhyw un neu ragor o'r uchod, ystyriwch y 5 ffordd o weithio, yn enwedig *integreiddio*.

DISGRIFIWCH SUT MAE MODD CYFLAWNI'R ARBEDION MEWN FFORDD A FYDD YN LLINIARU'R EFFAITH AR FEYSYDD GWASANAETH NEU BARTNERIAID ERAILL (**lle bo modd)**

**Canllawiau integreiddio:** Ystyriwch sut y bydd y cynnig yn effeithio ar feysydd gwasanaeth neu bartneriaid eraill a'u gallu i gyflawni eu hamcanion, gan gydnabod y gallai'r gofyniad am arbedion ar y Cyngor fod yn bwysicach na rhai pryderon.

Ddim yn berthnasol.

GAN YSTYRIED YR UCHOD, DIFFINIADAU'R SGÔR EFFAITH, A'R CYNLLUNIAU I LINIARU'R EFFAITH, NODWCH Y **SGÔR EFFAITH SEFYDLIADOL** SY'N BERTHNASOL I'R CYNNIG ARBED HWN (ticiwch):

| DIM EFFAITH | EFFAITH FECHAN | EFFAITH GYMEDROL | EFFAITH SYLWEDDOL | EFFAITH DDIFRIFOL |
|---|---|---|---|---|
| | X | | | |

## 4. CYSYLLTIADAU AG AMCANION POLISI A CHORFFORAETHOL

A YW'R CYNNIG ARBED YN CYSYLLTU AG UNRHYW UN NEU RAGOR O'R CANLYNOL?

Draft

| MAES POLISI | BETH YW'R CYSYLLTIAD? |
|---|---|
| CYNLLUN CORFFORAETHOL ac AMCANION LLES (nodwch pa amcanion) | Ddim yn uniongyrchol |
| DYLETSWYDDAU STATUDOL | Mae'r gyllideb hyfforddiant iaith Gymraeg a chydraddoldeb yn rhan o'r cynnig arbedion. Mae Asesiad Effaith Integredig ar wahân yn gysylltiedig â'r elfen hon o'r cynnig. |
| CANLLAWIAU neu STRATEGAETH LLYWODRAETH CYMRU | Ddim yn berthnasol |

## 5. SENSITIFRWYDD A RISG(IAU) ERAILL

| | | |
|---|---|---|
| A OES UNRHYW SENSITIFRWYDD/RISG ARALL WEDI'I NODI MEWN CYSYLLTIAD Â'R CYNNIG ARBED HWN? | | **Nac oes** |

| DISGRIFIWCH UNRHYW WYBODAETH BERTHNASOL (Risgiau a Sensitifrwydd) RYDYCH CHI'N TEIMLO NAD YDYW WEDI CAEL EI CHRYBWYLL. |
|---|
| |

**PENNAETH GWASANAETH: Lynne Donovan**
**DYDDIAD CWBLHAU: 03/01/2024**

Draft